



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cynllun Busnes 2017-20 Lefel 1

Adroddiad Monitro Chwarter 3

in 



Cynllun Busnes GwE 2017-20
Monitro Chwarter 3 - Lefel 1

1. SAFONAU							
Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
1 1.6 1.7 E1 C ALI x 6 R6 R7 R15	Safonau - sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.	<p>Cyfnod Sylfaen - gwella perfformiad y cyfnod sylfaen:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynyddu cyflymder y gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen yn Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. Codi safonau mewn Cymraeg iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen Cynnal safonau da yn Wrecsam a Sir y Flint. 	<p>Gwelliannau mewn safonau ar ddiwedd y CS ar draws y rhanbarth gyda 89.84% yn cyflawni'r DCS.</p> <p>Gwelliant yn y % sy'n cyflawni'r DCS yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ynys Môn – 89.29% Gwynedd - 91.49% Conwy - 87.89% Sir Ddinbych - 87.89% <p>Codi safonau mewn Cymraeg iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen, i 93.5%</p> <p>Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r deilliannau uwch yn yr holl ddangosyddion ar draws y rhanbarth:</p> <ul style="list-style-type: none"> ILICHs 40.6% ILICHc 43.1% DM 42.6% DPCh 69.3% 	Marc B Hughes	Mehefin 2018	<p>£50,000 (GGA11) 100 diwrnod</p> <p>£100,000 (M5) 300 diwrnod</p>	<p>Mae'r cynnydd o fewn y rhanbarth yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn y 2 flynedd ddiwethaf yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol. Dengys data rhanbarthol a gasglwyd yn 2017 gynnydd o 1.1% yn y DCS.</p> <p>Gwelwyd cynnydd rhanbarthol ym mhedwar maes y CS – ILICHc 89.1% (+1.3%), ILICHs 88.4% (+1.9%), DM 90.1% (+0.6%) a DPCh 95.1% (+0.7%).</p> <p>Gwelwyd gwelliannau sylweddol mewn dau ALI – Wrecsam a Sir Y Fflint :</p> <ul style="list-style-type: none"> Sir y Fflint 86.9% i 89.5% (+2.6%) Wrecsam 86.6% i 88.4% (+1.9) <p>Mae'n anodd ar hyn o bryd rhagfynegi deilliannau'r CS ar gyfer flwyddyn nesaf. Mae casglu cynnydd yn erbyn targedau a rhagamcanion yn mynd rhagddo o hyd, tra bo'r ymgynghoriad cenedlaethol ar asesiad athro wedi aildanio'r ddadl ynglŷn ag asesiad athro manwl gywir.</p> <p>Mae'n debygol y bydd deilliannau ar y lefelau disgwylidig ac uwch yn disgyn yn rhanbarthol yn 2018. Y rhagfynegiad rhanbarthol ar hyn o bryd yw 85.5% , sy'n 1.5% yn is na 2017 a 4.3% yn is na'r</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							<p>targed rhanbarthol o 89.8%.</p> <p>Mae ysgolion targed wedi'u hadnabod ar draws y rhanbarth. Cyflwynwyd y gweithdy cyntaf ar dargedu dysgwyr ffiniol 4/5 mewn ILIC a DM. Bydd gweithdy dilynol yn fuan yn nhymor y gwanwyn. Mae gweithdai safoni a chymedroli CS wedi'u trefnu yn rhanbarthol ar gyfer tymor y gwanwyn a thymor yr haf. Gall pob ysgol fynychu'r rhain.</p> <p>Ni farnwyd yr un ysgol gynradd a arolygwyd yn nhymor yr hydref 2017 yn anfodddhaol ym Maes Arolygu 1, a barnwyd llawer o ysgolion (80%) yn 'dda'.</p>
1 1.8 1.9 E1 C ALI x 6 R6 R7		<p>Cyfnod Allweddol 2 - gwella'r perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 2:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Conwy yng Nghyfnod Allweddol 2 Cynnal safonau da yn yr Awdurdodau lleol eraill 	<p>Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Conwy yng Nghyfnod Allweddol 2 i 90.1%.</p> <p>Cynnal safonau da yn yr Awdurdodau lleol eraill.</p>	Marc B.Hughes	Mehefin 2018	<p>£50,000 (GGA 2) 100 diwrnod</p> <p>£32,500 (M5) 65 diwrnod</p>	<p>Yn 2017, mae perfformiad GwE yn y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) wedi codi o 3ydd safle'r flwyddyn flaenorol i'r safle 1af o blith y pedwar consortiwm. Dengys data rhanbarthol a gasglwyd yn 2017 gynnydd o 1.6% yn y DPC, o 88.8% i 90.4%.</p> <p>Gwelwyd cynnydd rhanbarthol ym mhedwar maes CA2:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cymraeg (+1.6%), Saesneg (+1.7%), Mathemateg (+1.2%) Gwyddoniaeth (+0.8%). <p>Roedd tri ALI (Conwy, Wrecsam a Sir y</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							<p>Fflint) o fewn 0.5% i'w targed ar gyfer 2017 a rhagorodd dau ar eu targed (Ynys Môn a Gwynedd). Roedd Sir Ddinbych 1.1% islaw'r targed.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwynedd (+1.3%) • Ynys Môn (+0.4%) • Conwy (-0.5%) • Sir Ddinbych (-1.1%) • Sir y Fflint (-0.3%) • Wrecsam (-0.3%) <p>Mae'r deilliannau uwch wedi gwella'n sylweddol yn 2017:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymraeg (+3.8%) • Saesneg (+4.5%) • Mathemateg (+6.1%) • Gwyddoniaeth (+5.6%) <p>Gwelwyd cynnydd o 1.7% yng Nghonwy (o 86.8% i 88.4%); mymryn yn unig yn fyr o'r targed ar gyfer 2017, sef 88.9%.</p> <p>Mae'n anodd ar hyn o bryd rhagfynegi deilliannau CA2 ar gyfer flwyddyn nesaf. Mae casglu cynnydd yn erbyn targedau a rhagamcanion yn mynd rhagddo o hyd, tra bo'r ymgynghoriad cenedlaethol ar asesiad athro wedi aildanio'r ddadl ynglŷn ag asesiad athro manwl gywir.</p> <p>Mae'n debygol y bydd y lefelau disgwylid yn aros yr un fath; fodd bynnag, mae angen targedu'r lefelau uwch ymhellach fel nad ydynt yn disgyn islaw deilliannau'r llynedd a'r targed a</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							fodelwyd.
1 1.8 1.9 E1 C ALI x 6 R6 R7		Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 3.	Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 3 i 92.21%.	Elfyn V Jones	Mehefin 2018	£4,000 (M12) 8 diwrnod £1,000 (C3) 2 ddiwrnod £8,000 (M12) 16 diwrnod £1500 (M12) 3 diwrnod £1,000 (C1) 2 ddiwrnod £3000 (C1) 6 diwrnod	Mae ALI Wrecsam a staff GwE yn adnabod ac yn targedu grwpiau o ddysgwyr, pynciau ac ysgolion ar gyfer cefnogaeth. Dengys asesiad athro ar gyfer 2017 gynnydd o 1.9%, i 86.3% yn y DPC. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 1.5%, a'r cynnydd mwyaf o fewn y rhanbarth. Fodd bynnag, dengys dadansoddiad o asesiadau athro terfynol bod gwella perfformiad ALI Wrecsam yng nghyfnod allweddol 3 yn flaenoriaeth o hyd a rhoddir sylw i hyn yng nghynllun yr ALI.
1 1.1 - 1.5 E1 U ALI x 6 R4 R5 R6		Gwella safonau yng Nghyfnod Allweddol 4: <ul style="list-style-type: none"> Gwella safonau yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4. Gwella perfformiad yn y pynciau sylfaenol. 	Gwelliant ym mherfformiad dangosydd L2+ o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol. Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio'n uwch na'r canolrif mewn meincnodau PYD ar gyfer L2+ yn codi o 5%. 55% o ysgolion yn perfformio yn unol â neu'n uwch na'r deiliant ar gyfer L2+. Cynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni 5A*-A mewn TGAU,	Elfyn V Jones	Awst 2018	Craidd £60,000 (C2) 120 diwrnod £23,000 (C3) 46 diwrnod £25,000 50 diwrnod £125,000 (M12) 250 diwrnod £811000 (GGA5)	Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r trothwy cynwysedig Lefel 2 (L2+) yn waelodlin newydd ar gyfer Cymru a'r rhanbarth eleni. Yn 2017, arholwyd y manylebau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth am y tro cyntaf. Mae mathemateg yn cynnwys dau faes llafur newydd (rhifedd a mathemateg) ac mae'r nail a'r llall yn cyfrannu tuag at y L2+. Yn ogystal â hyn, mae newidiadau i'r dangosydd L2+ yn golygu mai dim ond Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a gynhwysir, tra bo

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
R7 R14 R16 R17			<p>neu gyfwerth, o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.</p> <p>Mae gan bob ysgol gynlluniau cefnogaeth da gyda ffocws ar godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4.</p>			22 diwrnod	<p>llenyddiaeth TGAU (Cymraeg neu Saesneg) wedi cyfrannu hefyd yn y gorffennol.</p> <p>Mae gan bob ysgol gynlluniau cefnogaeth cadarn gyda ffocws ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 4.</p> <p>Fodd bynnag, dengys rhagfynegiadau presennol bod amrywiad yn erbyn targedau: L2+ -4.7%; L2 -4.6%; L1 -0.9%; 5a*/a -1.7%; Saesneg – 3.4%; Cymraeg – 3.0%; Y gorau o'r ddau (maths) -5.1%; gwyddoniaeth -4.9%.</p> <p>Targedir cefnogaeth ychwanegol ar hyn o bryd ar gyfer ysgolion unigol.</p>
1 1.1 – 1.10 E1 C U ALI x 6 R11		Gwella perfformiad dysgwyr PYD, yn enwedig mewn Iaith Saesneg.	Bydd y bwch rhwng ein dysgwyr PYD a dim PYD hefyd yn lleihau, o 5% o leiaf, mewn L2+ a'r DCS.	Elfyn V Jones / Marc B.Hughes	Awst 2018	£10,000 20 diwrnod Craidd	<p>Mae asesiad athro ar gyfer 2017 wedi cynyddu i 73.5% [o 67.6% yn 2015 a 73.3% yn 2016]. Gwelir mymryn o gynnydd, o -17.2 i -18.0, yn y bwch hPYD/dim hPYD oherwydd bod cynnydd o 1.0% ym mherfformiad dysgwyr dim hPYD.</p> <p>Dengys data bod perfformiad dysgwyr hPYD yn y DCS wedi cynyddu o 1.7%, a bod y bwch wedi lleihau oddeutu 1% yn 2017.</p> <p>Yn 2017, disgynnodd y ganran rhanbarthol o ddysgwyr hPYD sy'n cyflawni L2+ i 26.9%; cwmp o 7.4% o'i gymharu â 2016, gyda'r gostyngiad fymryn yn uwch na'r gostyngiad o 7.1% a</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							<p>welwyd yn genedlaethol.</p> <p>Mae perfformiad dysgwyr PYD yng nghyfnod allweddol 4 yn flaenoriaeth allweddol o hyd.</p>
1 1.1 – 1.5 1.8 1.9 E1 U R4 R5 R7 R14 ALI x 6		Gwella perfformiad mewn laith Saesneg	Gwelliant yng nghanlyniadau laith Saesneg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.	Gaynor Murphy	Awst 2018	£15,000 (C3) 30 diwrnod	<p>Yn 2017, gwelwyd cynnydd o 1.75% yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni A*-C mewn TGAU laith Saesneg. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud o ran meincnodi ysgolion unigol.</p> <p>Mae cynlluniau clir ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn.</p> <p>Mae'r system 'Ton' wedi'i hatgyfnerthu a'i mireinio. Ceir adolygu rheolaidd i adolygu'r risg/gefnogaeth. Rhannwyd gwybodaeth am ysgolion ag YCG mewn cyfarfodydd tîm. Mae pob ysgol Ton 2 a 3 wedi cael cefnogaeth ac ysgolion mewn risg wedi'u hadnabod.</p> <p>Fodd bynnag, dengys rhagamcanion presennol amrywiad o -3.4%. yn erbyn y targed mewn Saesneg.</p> <p>Targedir cefnogaeth ychwanegol ar gyfer ysgolion unigol ar hyn o bryd.</p>
1 1.1 – 1.5		Gwella perfformiad mewn mathemateg a rhifedd	Gwelliant mewn Rhifedd a mathemateg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.	Dafydd Gwyn / Delyth Ellis	Awst 2018	£25,000 50 diwrnod	<p>Yn 2017, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni A*-C mewn mathemateg (56.2%) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (58.7%).</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
1.8 1.9 E1 U R4 R5 R7 R14 ALI x 6							<p>Roedd canran rhanbarthol y disgyblion a gyflawnodd A*-C mewn TGAU rhifedd (58.1%) 1.9% yn uwch na chanlyniadau mathemateg 2017.</p> <p>Mae cynlluniau clir ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn.</p> <p>Comisiynwyd unigolion i sicrhau cefnogaeth bwrpasol ar gyfer pob ysgol Ton 2 a Thon 3.</p> <p>Rhannwyd adnodd ar gyfer dadansoddi data a thafleuni gosod targedau disgyblion â PA.</p> <p>Ymwelwyd â phob ysgol Ton 2 a Thon 3 o leiaf unwaith yn ystod tymor yr hydref a rhannwyd camau gweithredu.</p> <p>Mae newidiadau i'r maes llafur TGAU wedi creu ansicrwydd ar hyd a lled y rhanbarth. Ffactor tra phwysig yn yr ansicrwydd hwn yw y penodwyd dros hanner y penaethiaid adrannau o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.</p> <p>Fodd bynnag, dengys rhagamcanion presennol bod amrywiad o -5.1% yn erbyn targedau mathemateg/mathemateg-rhifedd a'r gorau o'r ddau. Targedir cefnogaeth ychwanegol ar gyfer ysgolion unigol ar hyn o bryd.</p>

1. SAFONAU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
1 1.1 – 1.10 E1 C U ALI x 6 R5 R7 R14 R16		Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr: <ul style="list-style-type: none"> • PYD • Bechgyn • MATH 	Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr (PYD,Bechgyn, MATH) o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol - CS a CA4	Elfyn V Jones / Marc B.Hughes	Awst 2018	£10,000 20 diwrnod Craidd	<p>Dengys data bod perfformiad dysgwyr PYD yn y DCS wedi cynyddu o 1.7%, a bod y bwch wedi lleihau o oddeutu 1% yn 2017.</p> <p>Mae'r bwch rhwng y rhywiau yn y Cyfnod Sylfaen wedi lleihau ar draws y rhanbarth mewn 5 o'r 6 ALI, gyda perfformiad bechgyn yn gwella yn gyffredinol.</p> <p>Mae'r deilliannau uwch wedi gwella'n sylweddol yn y Cyfnod Sylfaen yn 2017 ILICC (+2.7%), ILICS (+2.3%), DM (+2.3%) a DPCh (+2.5%).</p> <p>Yn dilyn sefydlu gwaelodlin newydd ar gyfer CA4 eleni, mae angen gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr wrth gymharu ysgolion tebyg.</p> <p>Mae perfformiad dysgwyr PYD yn CA4 yn flaenoriaeth allweddol o hyd.</p> <p>Mae cynlluniau clir ar waith i fynd i'r afael â'r materion.</p>

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
<p>2</p> <p>2.1 –</p> <p>2.4</p> <p>2.7</p> <p>C</p> <p>CaA</p> <p>ALI x</p> <p>6</p> <p>R15</p>	<p>Cwricwlwm ac asesu - sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.</p>	<p>Gwella'r ddarpariaeth, y cynllunio cwricwlwm a'r asesu yn y Cyfnod Sylfaen.</p>	<p>Mae gan bob ysgol gynradd weithdrefnau cwricwlwm ac asesu priodol ar waith yn y Cyfnod Sylfaen.</p>	<p>Marc B.Hughes</p>	<p>Tymor yr haf 2018</p>	<p>£45,000 (C1) 90 diwrnod</p>	<p>Mae gweithdai wedi eu trefnu yn gynnar yn nhymor y gwanwyn gyda sesiynau dilynol i'w cynnal wythnos gyntaf yn nhymor yr haf. Bydd y gweithdai yn canolbwyntio ar safoni a chymedroli disgyblion ffiniol Deilliant 4/5 a Deilliant 5/6. Bydd hyn yn cael ei gynnig i bob ysgol ar draws y rhanbarth.</p> <p>O ran y gweithdai rhanbarthol ar gynllunio o ansawdd uchel ac addysgeg ar gyfer athrawon a staff cymorth y CS, oherwydd capasiti yn y CS, ni fydd yr holl raglenni hyfforddi yn cael eu darparu o fewn y flwyddyn ariannol. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod tymor yr haf.</p> <p>Mae hyfforddiant gwaelodlin rhanbarthol wedi ei ddarparu ar gyfer pob ANG ac athrawon sy'n newydd i'r CS er mwyn sicrhau cysondeb mewn perthynas â'r broses asesu.</p> <p>Yn ystod tymor yr Hydref 2017, ni chafodd yr un ysgol farn anfodhaol ym Maes Arolygu 3 yn ystod arolygiad ESTYN. Barnwyd bod 65% o'r ysgolion a arolygwyd yn ystod tymor yr Hydref yn 'dda' ym Maes Arolygu 3.</p> <p>Gwella cyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y meysydd dysgu heb gael ei adnabod fel argymhelliad yn 70% o'r ysgolion a arolygwyd.</p>

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							Ni nodwyd yr elfen 'Dal i ddatblygu dysgu awyr agored' fel argymhelliad mewn 95% o ysgolion, a ni chafodd 'Gwella cyflenwi addysgeg y CS' ei hadnabod fel argymhelliad mewn 80% o'r ysgolion a arolygwyd.
2 2.1 – 2.8 U CaA ALI x 6 R5		Gwella cynllunio cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd er sicrhau gwell deilliannau ar gyfer pob dysgwr.	Mae gan bob ysgol uwchradd gwricwlwm priodol ar waith yng Ngyfnod Allweddol 4 i wella perfformiad yn y dangosyddion perfformiad allweddol.	Paul Mathews-Jones	Tymor yr haf 2018	£13,000 (M17) 26 diwrnod £11,000 (GGA5) 22 diwrnod	<p>Sefydlwyd grwpiau cwricwlwm yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Wrecsam.</p> <p>Yng Ngwynedd/Ynys Môn, grŵp strategol o ddirprwyon, a sefydlwyd yn ddiweddar, fydd yn gyrru'r gwelliannau.</p> <p>Disgwyl am ddatblygiadau a diweddariadau gan LIC/CC ynglŷn â'r dangosyddion diwygiedig.</p> <p>At ddibenion rhannu arfer dda mae gofyn bod G6 yn weithredol mewn ysgolion. Mae bob un o'r chwe ALI wedi cael brîff ar PISA ac mae arolwg LIC i'w gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr. Mae gwaith i'w wneud ar y gronfa ddata.</p> <p>Cafwyd adborth da gan ysgolion o ran yr angen i ganolbwyntio ar y cwricwlwm a'i effaith ar y DPA. Mae angen i ni gefnogi ysgolion i arfarnu effaith eu cwricwlwm. Gallwn gyflwyno arfer dda drwy ein gwaith ar G6 yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, nid oes cysondeb ar hyn o bryd mewn cefnogaeth strategol ar gyfer y cwricwlwm.</p>

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
2 2.1 – 2.8 U CaA ALI x 6 R5		Gwella ansawdd asesu, tracio a rhaglenni ymyriad yn yr ysgolion uwchradd.	Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau ar gyfer L2+, a bod 60% o fewn 2% i'w targedau. Yr un ysgol i'w barnu yn anfodddhaol ym Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad ESTYN.	Paul Mathews-Jones	Mis Medi 2017 ymlaen	Craidd £15,000 (C1) 30 diwrnod £74,000 (GGA10) 148 diwrnod £11,000 (GGA5) 22 diwrnod £60,000 (C3) 120 diwrnod	Anfonwyd tendr allan i greu taflenni marcio cyffredin gyda ffocws ar TGAU gwyddoniaeth. Mae Ysgol Dinas Bran, Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Botwnnog wedi cael hyfforddiant cychwynnol ar sefydlu dangosfwrdd byw ar gyfer tracio data byw. Yn dilyn derbyn y templed terfynol gan CYNNAL, bydd yn cael ei ddsbarthu i ysgolion. Bydd cyswllt gyda'r gwaith ar G6 sy'n dechrau yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd am ansawdd a chadernid asesiadau tracio mewn nifer o ysgolion. Bydd ffocws parhaus ar hyn yn nhymor y gwanwyn a'r haf.
2 U CaA ALI x 6 R18		Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer Safon A	Gwelliant yng nghanlyniadau Safon A ac UG, yn unol â thargedau ac i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn dangosyddion allweddol.	Martyn Froggett	Mis Medi 2017 ymlaen	£5,000 (M17) 10 diwrnod	Er sicrhau gwell casglu data ôl-16 ar lefel ranbarthol, mae pecyn ALPs wedi'i brynu. Mae gan bob Arweinydd Craidd ac ALI fynediad iddo. Roedd ymweliad tymor yr hydref yn canolbwyntio ar berfformiad Chweched Dosbarth. O ran cryfhau'r cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i fynd i'r afael â heriau rhanbarthol, mae GwE yn cefnogi cyfarfodydd y Rhwydwaith 14-19. Mae trefniadau gweithio da wedi'u sefydlu. Eisoes, bu gweithio ar y cyd yn dilyn cynhadledd ALPs a defnyddio data ALPs. Mae'r grŵp 14-19 yn helpu gyda

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							chynllunio'r gynhadledd Chweched Dosbarth fydd yn cael chynnal ym mis Mawrth.
2 2.1 – 2.8 C U DL11 DL12 DL13 DL14 CaA ALI x 6 R19		Cyflawni Dyfodol Llwyydiannus - codi ymwybyddiaeth o'r Pedwar Diben o fewn Dyfodol Llwyydiannus a datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm	<p>Mae pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.</p> <p>Cwricwlwm effeithiol seiliedig ar sgiliau ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol.</p>	<p>Ruth Thackery</p>	<p>Mis Ebrill 2017 ymlaen</p>	<p>Grant Arloesi</p>	<p>Mae 57 o hwyluswyr clwstwr mewn cysylltiad gyda phob clwstwr yn y rhanbarth ac mae llawer yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu o fewn eu clystyrau. Mae bron pob prosiect ariannu cynhwysedd wedi eu dychwelyd ac mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio ar ddatblygu elfennau o addysgeg ar draws yr ysgolion. Mae adnoddau yn cael eu datblygu i sicrhau a chefnogi negeseuon cyson. Mae adnoddau rheoli newid yn cael eu datblygu ar draws y consortia i gefnogi'r negeseuon Cenedlaethol. Mae Arweinwyr Portffolio hefyd yn datblygu deunyddiau cyffredin i rannu â YGC yn ystod ymweliadau ag ysgolion.</p> <p>Bydd cyfarfod nesaf yr hwyluswyr clwstwr yn cael ei gynnal yn Chwefror 2018. Bydd Estyn yn bresennol i drafod eu rôl wrth ddiwygio'r cwricwlwm. Hefyd i'w drafod yw symud i flwyddyn 2 gyda'r gwaith clwstwr, gan gynnwys cynyddu nifer o hwyluswyr o fewn y clwstwr. Cafwyd derbyniad da yn dilyn cyflwyniadau i'r grwpiau defnyddwyr cynradd ac uwchradd ac adroddwyd bod ymwybyddiaeth o ddatblygiadau yn cael eu codi drwy waith clwstwr.</p> <p>Mae 100% o ysgolion GwE ar drac i gael gwell ymwybyddiaeth o CiG a'r</p>

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							datblygiadau diweddaraf. Bydd defnyddio Dangosfwrdd G6 yn cynnig cyfle i ysgolion adnabod a ydynt ar drac.
2 CaA		Adolygu ansawdd y ddarpariaeth ac asesu mewn canolfannau UCD.	Mae darpariaeth dda mewn UCD i ennill cymwysterau priodol a chyfrannu at ddangosyddion perfformiad allweddol ALL.	Richard Cubie	Mis Medi 2017 ymlaen	£2,000 (C1) 4 diwrnod	<p>Ni fu adolygiad o'r ddarpariaeth ar hyn o bryd ym mhob UCD er mwyn adnabod arfer orau a meysydd/agweddau rhanbarthol a lleol ar gyfer gwelliant pellach, ond mae cynlluniau ar waith ar gyfer cyfarfodydd y tymor hwn.</p> <p>Cwblhawyd AHA a CGY ym mhob canolfan ac maent yn llawer mwy effeithiol a chadarn, er bod angen rhagor o fanylion mewn peth dogfennaeth ynghylch camau gweithredu a deilliannau mesuradwy. Peth tystiolaeth ym mhob canolfan o ddatblygiadau blaengar ar y cyd â cholegau ac ysgolion.</p> <p>Mae peth tystiolaeth ym mhob UCD o well cydweithio ag ysgolion prif lif, colegau a chyflogwyr lleol er mwyn datblygu ac ehangu'r cwricwlwm a'r llwybrau galwedigaethol sydd ar gael i fodloni anghenion pob dysgwr yng nghyfnod allweddol 4.</p> <p>Mae gan bob canolfan fynediad i arweiniad priodol ar gyflwyno'r cwricwlwm newydd.</p> <p>Mae pob canolfan yn barod ar gyfer Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad gan Estyn.</p>

2. CWRICWLWM AC ASESU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							<p>Yn gyffredinol mae AHA a CGY yn ateb y diben.</p> <p>Mae gan bob canolfan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • well prosesau ar waith ar gyfer gosod targedau • targedau â lefel briodol o her i wella perfformiad • prosesau tracio effeithiol er mwyn gallu adnabod tanberfformiad yn gynnar • dadansoddiadau rheolaidd a manwl o asesiadau • rhaglenni ymyriad effeithiol ar waith ar ôl adnabod dysgwyr unigol <p>Fodd bynnag, mae gwaith pellach i'w wneud ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • brosesau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag amrywiad mewn ysgol • datblygu system fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng UCD ac ysgolion prif llyfr

3. ARWEINYDDIAETH

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
3 3.1 – 3.17	Arweinyddiaeth - sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth	Ymhellach i hyn, datblygu a gwella ansawdd uwch arweinyddiaeth ym mhob sector ar draws y	Mae gan 85% o Uwch Dimau Arwain brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.	Pam McClean / David Edwards	Ebrill 2017 ymlaen	£10,000 (C1) £61,000 (M3) 122 diwrnod	Mae GwE yn darparu ystod o raglenni, o rai ar gyfer darpar uwch arweinwyr i rai ar gyfer penaethiaid profiadol, yn unol â'r Llywybr Datblygu Gyrfa Cenedlaethol.

3. ARWEINYDDIAETH

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
C U A ALI x 6 R6	addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddogarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.	rhanbarth.	<p>Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion a osodir mewn Categoriâu Statudol Estyn.</p> <p>Dim ysgol i'w rhoi mewn Categori Statudol Estyn yn annisgwyl.</p> <p>Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion mewn Adolygu gan Estyn.</p> <p>Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion sy'n cael gradd D yng nghanam 2 y broses gategoreiddio.</p> <p>Cynnydd o 25% yn nifer yr ysgolion uwchradd a chynradd sy'n cael gradd A yng nghanam 2 y broses gategoreiddio.</p>			<p>£72,000 (M17) 144 diwrnod</p> <p>£28,000 (C3) 56 diwrnod</p> <p>£12,000 (C1) 24 diwrnod</p> <p>£15,000 (GGA5) 30 diwrnod</p>	<p>Mae'r rhaglenni datblygu yn hybu cydweithio ysgol i ysgol, gydag ymarferwyr effeithiol o ysgolion yn cydgyflwyno sesiynau gyda staff GwE. Mae hyn yn datblygu ymhellach y syniad o ddatblygu system sy'n hunan wella ar draws gogledd Cymru.</p> <p>Mae'r rhaglen ddatblygu yn mynd rhagddi ar hyn o bryd a'r Rhaglen Datblygu Uwch Arweinyddiaeth y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth L5 a L7 yn parhau.</p> <p>Mae'r Rhaglen Datblygu Penaethiaid Ranbarthol yn cael ei datblygu gan is-grŵp rhanbarthol dan arweiniad GwE.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr arweiniol o bob ALI yn rhanbarth GwE er mwyn sefydlu pa ddarpariaeth a gynigir gan GwE a pha ddarpariaeth a gynigir gan bob ALI ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro ym mhob awdurdod.</p> <p>Bydd GwE yn hwyluso dau ddigwyddiad diwrnod cyfan ar batrwm cynhadledd-gweithdy (un yn ystod tymor y gwanwyn a'r llall yn ystod tymor yr haf).</p> <p>Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid - gwahoddwyd 62 o athrawon ar hyd a lled y rhanbarth i fynychu'r hyfforddiant 7-diwrnod, i ddechrau ar 12/01/18.</p>

3. ARWEINYDDIAETH							
Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
				Rhys H Hughes / Marc B Hughes	Ebrill 2018	(M3)	<p>Cyflwynir y Rhaglen Datblygu Penaethiaid i Garfan 6 yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 29 Ionawr 2018 (15 unigolyn).</p> <p>Mae gwaith yn datblygu'n effeithiol gyda'r Is-grŵp Arweinyddiaeth Consortia ar ddatblygu dwy raglen genedlaethol, i'w cymeradwyo gan Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, fydd yn barod i'w cyflwyno o fis Medi 2018 ymlaen - Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol. Mae GwE yn arwain ar ddatblygu'r 'Welsh Education High Performance Coaches Programme', fydd yn agwedd allweddol ar raglenni arweinyddiaeth y dyfodol.</p>
3 3.1 – 3.17 C U A All x 6		Datblygu a gwella ymhellach ansawdd arweinyddiaeth ganol ar draws y rhanbarth.	Mae gan 85% o Dimau Arweinyddiaeth Ganol brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.	Ian Kelly	Mis Hydref 2017 ymlaen	(Craidd) £65,000 (M3) 130 diwrnod £58,000 (C3) 116 diwrnod £47,000 (C1) 94 diwrnod £20,000 (M17) 40 diwrnod £13,000 (GGA5) 26 diwrnod	<p>Personél wedi'u hadnabod a'u targedu. Cyflwynwyd rhaglen hyfforddiant ar gyfer Carfan 4 a 5 - 38 arweinydd canol wedi mynychu rhaglen 7 diwrnod. Mae'r arfarniad o'r rhaglen, a wnaed gan Brifysgol Bangor, yn amlygu effaith gref ar berfformiad personol. Carfan 6 a 7 wedi'u hadnabod - 60+ o unigolion. Cynhaliwyd y 2 ddiwrnod cyntaf ar 12 a 13 Hydref. Bydd Prifysgol Bangor yn arfarnu'r rhaglen gyfan ymhellach.</p> <p>Bu trafodaethau rhwng YCG cyswllt a phenaethiaid i adnabod elfennau o Gynlluniau Cefnogaeth ysgolion unigol. Trafodaethau pellach i'w cynnal gyda'r</p>

							<p>Arweinydd Craidd er mwyn cytuno ar yr ysgolion fydd yn cael cefnogaeth wedi'i thargedu. Mae iNET wedi'i adnabod fel darparwr posib i gyflwyno hyfforddiant. Rhaglen hyfforddiant iNET wedi'i chwblhau - i ddechrau ym mis Mawrth 2018.</p> <p>Mae pecyn cymorth wedi'i gwblhau ar gyfer uwch arweinwyr. Pob Arweinydd Craidd i roi cyflwyniad yn fforymau strategol penaethiaid. Mae gwaith pellach i'w wneud i'w addasu ar gyfer arweinwyr canol. Trafodaethau pellach i'w cynnal, er enghraifft, rhaglen gyflwyno ar gyfer y rhanbarth.</p> <p>Cefnogaeth wedi'i thargedu ac ymyriad wedi'i cwblhau ar gyfer dwy ysgol uwchradd cyn eu harolygiad. Gwelir yr effaith yn glir yn y ddwy ysgol; y farn ar arweinyddiaeth yn dda yn y ddwy ysgol. Arweinwyr canol o ysgolion amrywiol wedi'u hadnabod i addasu'r pecyn cymorth - i'w gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr.</p> <p>Darparwyd arweiniad a chefnogaeth i bob ysgol yng ngogledd-orllewin y rhanbarth drwy'r fforwm ar gyfer dirprwy benaethiaid. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch cyflwyno yn y gogledd-ddwyrain. Darparwyd cefnogaeth ranbarthol ar gyfer PA pynciau craidd drwy'r rhwydweithiau pwnc.</p>
3 3.1 –		Datblygu Benaethiaid	Darpar Rhaglen ar gyfer Darpar Arweinwyr ar waith. 60 o unigolion wedi'u hadnabod ac wedi cwblhau'r rhaglen.	Ian Kelly	Mis Hydref 2017 ymlaen	£20,000 (M3) 40 diwrnod	Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid - gwahoddwyd 62 o athrawon ar hyd a lled y rhanbarth i fynychu'r hyfforddiant

<p>3.17</p> <p>C</p> <p>U</p> <p>A</p> <p>R6</p> <p>ALI x</p> <p>6</p>			<p>25% o'r unigolion sydd wedi cymryd rhan wedi ymgeisio am swyddi UDA neu wedi cael dyrchafiad erbyn diwedd y flwyddyn.</p> <p>Arfarniad cadarnhaol gan ysgolion a chan arfarnwr allanol ar effaith y rhaglen ar unigolion.</p>				<p>7 diwrnod, i ddechrau ar 12/01/18.</p>
<p>3</p> <p>3.1 -</p> <p>3.4</p> <p>3.6</p> <p>3.10 -</p> <p>3.11</p> <p>3.14</p> <p>-</p> <p>3.17</p> <p>U</p> <p>A</p> <p>R4</p> <p>ALI x</p> <p>6</p>		<p>Gwella ansawdd arweinyddiaeth adrannol mewn pynciau craidd yn yr ysgolion uwchradd.</p> <p>Saesneg</p> <p>Cymraeg</p> <p>Mathemateg</p> <p>Gwyddoniaeth</p>	<p>Mae gan 85% o adrannau pynciau craidd brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.</p> <p>Mae arweinwyr canol yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau a bod 60% o fewn 2% yn y pynciau craidd.</p>	<p>Gaynor Murphy</p> <p>Rhian Mair Jones</p> <p>Dafydd Gwyn Nicola Jones</p>	<p>Ebrill 2017</p> <p>ymlaen</p>	<p>£21,000 (C1)</p> <p>52 diwrnod</p> <p>£15,000</p> <p>30 diwrnod</p> <p>£15,000 (M12)</p> <p>30 diwrnod</p>	<p>Adnabod risg - nifer sylweddol o benaethiaid adran newydd, yn enwedig mewn mathemateg.</p> <p>Mae pob PA pynciau craidd yn cael arweiniad a chefnogaeth mewn agweddau allweddol, a hynny yn y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol.</p> <p>Mae pob adran pwnc craidd bellach yn cael ei ragio er mwyn cyflwyno cefnogaeth wahaniaethol ar dair haen ar gyfer bob adran. Mae manylion ynghylch hyn mewn cynlluniau cefnogaeth unigol.</p> <p>Saesneg - cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith o safon uchel. Mae ffocws clir ar arweinyddiaeth a chydweithio. Cynhaliwyd fforwm cydlynwyr CA3 yn canolbwyntio ar dracio yng nghyfnod allweddol 3 ac ar ddefnyddio data i gael gwybodaeth. Mae ysgolion targed wedi cael Grantiau Arloesi i ddatblygu arfer. Gwelwyd cynnydd yng nghanlyniadau'r ysgolion hynny sy'n cael cefnogaeth ddwys. Mae PA yn deall y Fframwaith Arolygu diwygiedig yn well.</p> <p>Cymraeg - Mae cydweithio drwy'r</p>

							<p>rhwydweithiau, sy'n edrych ar arfer dda a rhagorol.</p> <p>Mathemateg - mae angen adnabod PA i gymryd rhan yn yr hyfforddiant iNET 5 diwrnod. Cefnogaeth i bennaeth adran newydd - sicrhau bod ffocws mathemateg clir i'r dysgu a'r addysgu. Mae angen sicrhau cymorth ariannol o'r cynllun busnes mathemateg L3 i sicrhau y targedir unigolion priodol.</p> <p>Gwyddoniaeth - oherwydd diffyg capasiti, ni chynhelir cwrs penodol ar arweinyddiaeth mewn gwyddoniaeth eleni. Fodd bynnag, cynhelir hyfforddiant ar gyfer arweinwyr canol sydd yn agored i bob maes pwnc, ac mae arweinwyr gwyddoniaeth yn cael eu hadnabod ar gyfer cwblhau'r cwrs. Mae ymweliadau ysgol yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, gan gynnwys SA a dwyn athrawon i gyfri.</p>
<p>3</p> <p>3.1 – 3.17</p> <p>C</p> <p>U</p> <p>DLI1</p> <p>DLI2</p> <p>DLI3</p> <p>DLI4</p> <p>A</p> <p>ALI x</p>		<p>Cefnogi UDauA i gyflwyno Dyfodol Llwyddiannus yn effeithiol.</p>	<p>Pob ysgol yn y rhanbarth ar drac i gyflwyno Dyfodol Llwyddiannus</p>	<p>Ruth Thackery</p>	<p>Ebrill 2017 ymlaen</p>	<p>Grant Arloesi</p>	<p>Mae tîm CiG GwE yn gweithio ar y cyd ag Agile Change ac ERW i ddatblygu pecyn cymorth Rheoli Newid ar gyfer pob YCG a phob ysgol. Mae rhai penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro wedi cael hyfforddiant ar Reoli Newid fel rhan o'r hyfforddiant clwstwr. Bydd cyfle i bawb gael hyfforddiant drwy gyfrwng y pecyn cymorth, Gweminar a hyfforddiant wyneb yn wyneb.</p> <p>Mae tîm CiG GwE wedi mynychu sesiynau hyfforddiant mewn 5 clwstwr ac mae hyfforddiant wedi'i gynnig i'r holl staff – dim ond UDA a staff addysgu yn y sesiynau.</p>

6 R19							<p>Mae pob hwylusydd clwstwr wedi cael hyfforddiant ar ddatblygiadau diweddar i'w rannu â phob ysgol yn y clwstwr.</p> <p>Mae arweinwyr clwstwr wedi dechrau ar eu gwaith ac maent mewn cyswllt â'r tîm CiG o ran cynllunio ac ennyn diddordeb clystyrau. Mae'r tîm CiG yn monitro ac yn cefnogi clystyrau wrth i'r gwaith fynd rhagdo.</p> <p>Mae grŵp peilot o benaethiaid yn Sir y Fflint yn gweithio ar ddatblygu adnoddau i godi ymwybyddiaeth o'r Safonau Arweinyddiaeth Proffesiynol.</p> <p>Mae 100% o ysgolion GwE ar drac i gael gwell ymwybyddiaeth o CiG a'r datblygiadau diweddaraf.</p>
----------	--	--	--	--	--	--	---

4. LLES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
4 4.1 - 4.12 C U LI R11 All x 6	Lles - creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc	Datblygu a gweithredu strategaeth gyffredin ar gyfer Lles ar draws y rhanbarth.	<p>Gweithredu'r strategaeth ar draws y rhanbarth.</p> <p>Dull cydweithrediadol ac effeithiol ar gyfer cyflawni agenda genedlaethol gyffredin gyda rolau a chyfrifoldebau clir i'r holl bartneriaethau.</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda'r holl asiantaethau allweddol sy'n cefnogi'r agenda i sicrhau effaith gadarnhaol ar bob dysgwr.</p> <p>Mae y rhan fwyaf o ysgolion yn</p>	Sharon Williams	Tachwedd - Rhagfyr 2018	Craidd	<p>Mae gwaith pellach i'w wneud i gwblhau'r trosolwg o Les o fewn y sefydliad. Cynhaliwyd ystod o gyfarfodydd gydag AauLI, staff GwE a LIC.</p> <p>Mae Cynllun gweithredu clir a chynllun busnes ar waith.</p>

4. LLES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 2
	yn cyflawni eu llawn potensial.		defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol.				
4 4.1 - 4.12 C U LI R11 ALI x 6		Gwella ymddygiad a phresenoldeb.	<p>Pob ysgol yn bodloni eu targedau presenoldeb y cytunwyd arnynt.</p> <p>Gosodir 60% o ysgolion yn nau chwarter uchaf y data presenoldeb a gofnodir yn setiau data craidd Cymru gyfan. Rhoddir sylw penodol i grwpiau o ddysgwyr targed â blaenoriaeth, fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru.</p>	Awdurdod au Lleol	Haf 2018	£20,000 (C3) £5,000 (M17)	Mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gydag AauLI. Mae Ymgynghorydd Llesiant Rhanbarthol GwE bellach yn aelod o'r grwp ADY/Cynhwysiant rhanbarthol. Bydd trafodaethau pellach yn ystod tymor y gwanwyn.

5. ADDYSGU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
5 5.1 – 5.9 C U D R4 ALI x	Addysgu - sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n	Gwella a chryfhau rôl arweinwyr wrth arwain y dysgu a'r addysgu.	<p>Mae gan bob UDA ac AC mewn ysgolion y sgiliau angenrheidiol a dealltwriaeth o addysgu da ac eithriadol er mwyn cynnig arweiniad a hyfforddiant yn eu hysgolion.</p> <p>Mae addysgu effeithiol ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol.</p> <p>Cyflawnir disgwyliadau Estyn, hynny yw, bod 85% neu fwy o wersi yn dda neu well, gan 85% o ysgolion ar</p>	Stella Gruffydd / Bethan James	mis Medi 2017 ymlaen	£20,000 (C1) (40 diwrnod)	<p>Gwahoddwyd ysgolion i wneud cynnig am gyllid i gyflwyno rhaglenni dysgu ac addysgu OLEVI yn rhanbarthol. Mae Rhaglenni Athrawon Eithriadol, Rhaglenni Gwella Athrawon a Rhaglenni Cynorthwywyr Addysgu Eithriadol oll mewn lle i'w cyflwyno yn ystod tymor y gwanwyn 2018.</p> <p>Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol i hyfforddi arweinwyr ysgol ar sut i ddefnyddio'r continwmm Dysgu ac Addysgu yn effeithiol. Mae 150 o</p>

5. ADDYSGU

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
6	cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.		draws y rhanbarth. Cynnydd cyffredinol o 5% mewn barnau da neu well ar gyfer y dysgu a'r addysgu ym mhob ysgol a arolygir gan Estyn.				ysgolion y rhanbarth wedi cymryd rhan yn y gweithdai yma. Caiff pob PA pynciau craidd arweiniad a chymorth ar arwain y dysgu a'r addysgu mewn rhwydweithiau rhanbarthol a lleol.
5 5.1 – 5.9 C U D R4 ALI x 6		Gwella ansawdd yr addysgu a'r profiadau i bob dysgwr	Cymorth a hyfforddiant pwrpasol i ysgolion risg uchel lle mae materion allweddol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu (i'w gadarnhau). Mae safonau addysgu yn yr ysgolion hynny sy'n rhan o Brosiect Aseu Ffurfiannol ac Addysgeg, dan arweiniad timau ymchwil weithredu Shirley Clarke mewn ysgolion, yn gyson dda neu well, gydag unigolion sy'n cymryd rhan ar Haen 1 yn arddangos arfer ragorol. Mae adroddiadau Estyn ar ysgolion sy'n cymryd rhan yn cadarnhau hyn. Effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch.	Stella Gruffydd / Bethan James	mis Medi 2017 ymlaen	£14,000 (C1) 28 diwrnod £30,000 (C2) 60 diwrnod £15,000 (C3) 30 diwrnod £10,000 (GGA10) 20 diwrnod £6,000 (GGA5) 12 diwrnod	Mae ysgolion wedi'u hadnabod a'u briffio yn llawn ynglŷn â Phrosiect Dysgu ac Addysgu Shirley Clarke. Rhannwyd manylion cyswllt, gwytodaeth gefndirol a chyfleoedd rhwydweithio. Mae ysgolion yn barod i frwr iddi, ac mae bron yr holl weithdrefnau mewn lle ar gyfer mesur effaith Haen 1 y prosiect ymchwil. Mae holiaduron i'w defnyddio gydag ysgolion ar fin cael eu cwblhau. Cyflwynwyd rhaglen wedi'i thargedu o'r enw 'great teaching and learning' [Tom Sherrington] i athrawon pynciau di-graidd yn Sir Y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych.

6. BUSNES

<i>Cyf</i>	<i>Blaenoriaethau</i>	<i>Gweithredu</i>	<i>Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018</i>	<i>Cyfrifoldeb</i>	<i>Dyddiad Targed</i>	<i>Ffynhonnell gyllid</i>	<i>Monitro Chwarter 3</i>
6 B	<p>Busnes - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.</p>	<p>Penodi Rheolwr Gyfarwyddwr llawn amser / parhaol ar gyfer y Gwasanaeth.</p>	Rheolwr Gyfarwyddwr wedi'i benodi.	Cyd-Bwyllgor	Mehefin 2017	Craidd	Penodwyd RhG ym mis Mehefin.
6 B		<p>Ailstrwythuro'r gwasanaeth i greu model arweinyddiaeth ddsbarthol ac adlewyrchu'r gofynion presennol o'r gwasanaeth.</p>	Ailstrwythuro ar waith gyda chyfrifoldebau clir ar gyfer ystod eang o staff.	Arwyn Thomas / Rhys H Hughes	Medi 2017	Craidd	Ailstrwythuro'r tîm proffesiynol wedi'i gwblhau. Ail strwythuro'r tim busnes yn parhau.
6 B		<p>Adolygu polisi rheoli perfformiad staff.</p>	Mae'r polisi yn rhoi sylwi i ddiwylliant, i weledigaeth ac i werthoedd GwE wrth gefnogi staff.	Alwyn Jones	Mehefin 2017	Craidd	<p>Adolygwyd y polisi a'i gyflwyno i Gyd-bwyllgor GwE ym mis Medi 2017.</p> <p>Mae polisi Rheoli Perfformiad staff GwE wedi'i adolygu i adlewyrchu yn well y Cynllun Busnes Rhanbarthol a'r strwythur atebolrwydd a staff newydd.</p> <p>Mae staff GwE yn cymryd rhan mewn Rheoli Perfformiad blynyddol bob mis Hydref, sy'n cael ei adolygu bob chwarter i fonitro cynnydd.</p> <p>Mae'r newidiadau yn cynnig rhagor o gyfleoedd datblygiadol ar gyfer staff ac yn rhoi mwy o adborth a chefnogaeth i'w helpu i gyflawni eu hamcanion. Mae hefyd yn galluogi staff i fod yn fwy hyblyg gyda'u hamcanion ac adolygu eu cyfeiriad yn ystod y flwyddyn os oes angen.</p>

6. BUSNES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
6 B 6.7		Cynnal arolwg iechyd sefydliadol	Anelu at berfformiad yn chwarter uchaf y mynegai iechyd sefydliadol.	Susan O Jones	Medi 2017	Craidd	<p>Arolwg wedi'i gwblhau. Cwblhaodd 91% o staff GwE yr arolwg.</p> <p>Mae Mynegai Iechyd y Sefydliad (OHI) gan McKinsey and Company yn rhoi gwybodaeth fanwl am sut y mae GwE yn perfformio ar y naw elfen iechyd mewn perthynas â pherfformiad wedi'i feincnodi yn erbyn 1,300 cwmni arall yn rhyngwladol.</p> <p>Yn yr adroddiad, nodwyd GwE fel sefydliad sy'n perfformio yn y chwarter uchaf gyda chryfderau penodol mewn cyfeiriad, medrusrwydd ac arweinyddiaeth. Mae GwE felly mewn sefyllfa ffafriol gyda golwg ar ei allu i berfformio yn y dyfodol.</p> <p>Mae'n galluogi GwE i ddadansoddi cryfderau'r sefydliad a'i anghenion datblygu, a'n helpu i ddeall ble fyddai angen gweithredu er mwyn cynnal y lefelau presennol neu wella dros amser. Bydd meysydd ar gyfer datblygiad yn cael eu hymgorffori yng nghynllun datblygu'r gweithlu.</p>
6 B 6.8		Sefydlu GwE fel Sefydliad sy'n Dysgu yn gweithio mewn partneriaeth efo LIC a OECD	Dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn erbyn 7 dimensiwn y model Sefydliad sy'n Dysgu.	Rhys H Hughes	Medi 2017	Craidd	<p>Arolwg OECD wedi'i gwblhau.</p> <p>Negeseuon allweddol: Darlun cadarnhaol cyffredinol o GwE fel Sefydliad sy'n Dysgu.</p> <p>Y dimensiwn cryfaf yw meithrin dysgu tîm a chydweithio ymhlith y staff.</p>

6. BUSNES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							<p>Yr ail ddimensiwn cryfaf yw datblygu gweledigaeth gytûn sydd â dysgu pob myfyriwr yn brif ganolbwynt.</p> <p>Y dimensiwn mae rhaid ei ddatblygu fwyaf yw dysgu gydag, ac oddi wrth, yr amgylchedd allanol a'r system ehangach.</p> <p>Yr elfen unigol a sgoriodd isaf yw cydweithio â gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.</p> <p>Agwedd gadarnhaol yw'r gydberthynas rhwng barn y Rheolwyr Gyfarwyddwyr a'r Arweinwyr a barn yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant [YCG] ar draws y saith dimensiwn.</p> <p>Mae angen i GwE ddatblygu ymhellach y strwythur Cefnogi Busnes newydd er mwyn datblygu'r saith dimensiwn i gael gwell aliniad o fewn y gwasanaeth.</p> <p>Estynnwyd gwahoddodd i GwE i gynhadledd rhanddeiliaid cenedlaethol Estyn i roi cyflwyniad ar eu gwaith ar ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu – cafwyd derbyniad da ac roedd yr adborth yn gadarnhaol o ran y diwylliant sy'n cael eu datblygu e.e. defnydd o'r G6.</p> <p>Bydd GwE yn parhau i weithio gyda'r holl bartneriaid o fewn yr haen ganol i ddatblygu yr arolwg Sefydliad sy'n</p>

6. BUSNES

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							Dysgu.

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
7 E1 C U	Argymhellion Estyn - sicrhau y gwneir y cynnydd angenrheidiol yn erbyn pob argymhelliad yn erbyn yr amserlen a ddisgwylir	Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.	System rheoli data gadarn ar waith. Mae'r holl ddeiliaid cynllun busnes yn defnyddio data yn effeithiol i gynllunio ac i arfarnu eu gwaith.	Alwyn Jones	Parhaus	Craidd	Barn Estyn: Cynnydd cryf Defnyddio Data Yn dilyn yr arolygiad craidd, mae GwE wedi rhoi prosesau grymus ac effeithiol ar waith i sicrhau bod data perfformiad allweddol yn cael ei ddadansoddi yn fwy diagnostig ar lefel ranbarthol, lleol ac ysgol unigol. Gweithredwyd rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i gefnogi YCG gyda'r dull newydd o weithredu. O ganlyniad, mae arweinwyr ac YCG yn defnyddio data fel mater o drefn i: <ul style="list-style-type: none"> • ddadansoddi perfformiad ar draws y rhanbarth; • adnabod yn gywir feysydd allweddol ar gyfer gwelliant; • arfarnu effaith rhaglenni ymyrraeth penodol ar gyrhaeddiad disgyblion; • monitro ac olrhain cynnydd grwpiau o ddysgwyr ar lefel ranbarthol, ALL unigol ac ysgol unigol; a • herio a chefnogi arweinwyr

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							<p>ysgol ar eu taith tuag at welliant</p> <p>Mae uwch arweinwyr bellach yn defnyddio data yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn rhanbarthol ac yn lleol yn cael eu hadnabod yn gyflym ac yr eir i'r afael â hwy yn rymus trwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. O ganlyniad, mae ansawdd y wybodaeth a rennir â'r Pwyllgor Rheoli wedi gwella yn sylweddol, sy'n galluogi aelodau i graffu'r gwasanaeth a'i herio yn sylweddol.</p> <p>Gosod Targedau</p> <p>Cytunwyd ar dargedau 3-blynedd heriol ar lefel ranbarthol, lleol, ysgol a disgybl. Mae targedau a rhagamcanion ysgolion yn cael eu herio yn rymus fel mater o drefn. Mae targedau'r Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • goladu targedau o ysgolion unigol • defnyddio safle PYD pob awdurdod i ragfynegi'r perfformiad disgwylidig • defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth lleol • pennwyd targedau Cyfnod Allweddol 4 gan ddefnyddio llinell atchwel ar gyfer pob dangosydd perfformiad i gyfrifo canlyniadau wedi'u modelu. <p>O fewn y model uwchradd diwygiedig,</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							<p>mae gan bob ysgol Raglen Gefnogaeth gynhwysfawr sy'n diffinio sut y mae GwE yn targedu cefnogaeth ac adnoddau i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn meysydd â blaenoriaeth. Mae cynnal rhaglen darged o ymweliadau adolygu yn ystod 2016-17 wedi sicrhau ein bod yn adnabod meysydd ac agweddau ar gyfer gwelliant yn fwy effeithiol ac yn fwy grymus mewn llawer o ysgolion sydd mewn risg.</p> <p>Tracio Mae GwE yn arwain ar ddatblygiadau ar system gwybodaeth reoli gynhwysfawr fydd yn rhoi gwybodaeth fanwl i GwE am berfformiad ysgolion unigol a dadansoddiad ohono. Mae hyn hefyd yn cynnwys tracio 'data byw' ar lefel ysgol uwchradd. Bydd y system newydd yn sicrhau bod y sgwrs gydag arweinwyr a rhanddeiliaid yn finiocach.</p> <p>Mae GwE wedi sefydlu partneriaeth effeithiol gyda Phrifysgol Bangor – Prosiect CIERE, fydd yn arfarnu effaith agweddau ar ei waith. Mae data arfarnol a dadansoddi yn galluogi'r sefydliad i farnu gwerth am arian yn well a llywio datblygiadau'r dyfodol. Mae'r rhaglen <i>her a chefnogaeth</i> ddiwygiedig i'r sector uwchradd, yn ogystal ag elfennau targed y rhaglenni arweinyddiaeth, yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd.</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
E2 6.3 – 6.6 B		Gwella ansawdd yr arfarnu wrth gyflawni gwasanaethau gwella ysgolion.	<p>Mae monitro cynlluniau yn nodi yn glir gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant.</p> <p>Perfformiad wedi gwella ym mhob cyfnod allweddol yn unol â mesuryddion perfformiad y cytunwyd arnynt.</p>	Bethan Eleri Roberts	Parhaus	Craidd	<p>Barn Estyn: Cynnydd da iawn</p> <p>Bellach, mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar bob lefel wedi'u gwreiddio mewn cyflawni gwasanaethau gwella ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> fframwaith atebolrwydd grymus; dadansoddiad manwl o ddata; cynllunio busnes manwl ar bob lefel sy'n bwydo'r cynllun Lefel 1; cynllun busnes awdurdod lleol manwl sy'n adlewyrchu materion lleol yn fanwl gywir; a'r adroddiad blynyddol. <p>Yn dilyn yr arolygiad craidd, mae fframwaith atebolrwydd grymus mewn lle, sy'n sicrhau bod gan bob maes gwasanaeth swyddog arweiniol dynodedig a enwebwyd. Mae pob swyddog yn gyfrifol am ddatblygu cynllun busnes manwl ar gyfer ei faes gwasanaeth, sy'n cynnwys dyddiadau cwblhau clir, goblygiadau hyfforddiant a meini prawf llwyddiant mesuradwy. Canfyddiadau hunanarfarnu yw sail blaenoriaethau cytunedig y cynlluniau busnes. Adolygir y cynlluniau bob chwarter ac adroddir am y canfyddiadau i'r uwch arweinwyr a'r bwrdd rheoli. Mae cynnydd yn cael ei ragio yn briodol a bydd uwch arweinwyr yn herio unrhyw lithriad mewn cynnydd disgwylidig.</p> <p>Mae adolygu rheolaidd ar bob lefel yn</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							<p>galluogi uwch arweinwyr i arfarnu'n fanwl gywir y cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y cynlluniau lefel uchel. Mae hyn yn sicrhau bod y cynlluniau busnes yn aros yn hyblyg er mwyn gallu cynnwys blaenoriaethau newydd yn ystod y cyfnod monitro os oes angen.</p> <p>Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y bydd y pennaeth gwasanaeth a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant arweiniol wedi cytuno arno. Nodir yn fanwl ym mhob cynllun y materion allweddol o fewn pob awdurdod, ac mae'n cynnwys cynllun gwella pwrpasol i fynd i'r afael â heriau penodol. Adolygir y cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytunedig ar lefel awdurdod lleol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant arweiniol. Caiff materion sy'n rhai parhaus eu cyflwyno ar gyfer sylw uwch arweinwyr GwE, a hynny yn amserol.</p> <p>Mae'r prosesau arfarnu sydd ar waith bellach yn rhai cylchol a pharhaus. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod yn fanwl gywir y meysydd perfformiad da a'r meysydd ar gyfer datblygiad neu'r rhai fydd efallai ddim yn cyfrannu at wella profiadau addysgol a deilliannau ar gyfer dysgwyr.</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							Mae gwaith a wnaed yn ddiweddar i ddatblygu dangosfwrdd ysgol yn rhoi data cyfredol a pharhaus i GwE. Mae hyn yn hwyluso lefel uwch o gyfathrebu, cefnogaeth a her rhwng rhanddeiliaid ac yn galluogi GwE i fonitro effaith ei waith a chynnydd ysgolion yn erbyn eu blaenoriaethau cytunedig, a hynny yn fwy amserol ac effeithiol. Trwy gyfrwng y dangosfwrdd, gellir defnyddio data a dadansoddeg yn fwy effeithiol i arfarnu ansawdd gwasanaethau a'u heffaith ar berfformiad dysgwyr ac ysgolion y rhanbarth. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gallu targedu ei adnoddau yn fwy effeithiol i fodloni ei flaenoriaethau, ac addasu adnoddau a'u hailgyfeirio pan nad yw pethau yn gweithio.
E3 6.3 – 6.6 B		Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.	Cofrestr Risg ar waith, gaiff ei diweddarau ac adroddir amdani yn rheolaidd. Adnabod risg yn gynnar ac yn drylwyr iawn ar bob lefel o fewn y consortiwm.	Susan O Jones	cwbllhawyd	Craidd	Barn Estyn: Cynnydd da iawn Mae'r trefniadau cynllunio busnes a monitro newydd yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei adolygu a'i ragio yn briodol. Mae trefniadau monitro cyffredinol yr uwch arweinwyr yn sicrhau bod risgiau ar bob lefel yn cael eu rheoli yn briodol ac y cytunir ar ymyraethau yn briodol ac yn amserol. Mae'r bwrdd rheoli a'r cyd-bwyllgor yn monitro'r trefniadau hyn yn fanwl. Mae rheoli risg y rhanbarth yn effeithiol yn galluogi GwE i gefnogi amcanion y sefydliad, defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyflawni amcanion fel y bwriadwyd.

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
E4 6.3 – 6.6 B		Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.	<p>Mae strwythur cynllunio busnes clir a fframwaith atebolrwydd ar waith sy'n gweithredu yn effeithiol.</p> <p>Mae cynlluniau busnes yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir a thargedau mesuradwy.</p> <p>Gweithdrefnau monitro chwarterol clir a chadarn wedi'u gweithredu.</p>	Bethan Eleri Roberts	Cwblhawyd	Craidd	<p>Barn Estyn: Cynnydd da iawn</p> <p>Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder pwysig yn GwE. Mae cynlluniau manwl ar sawl lefel yn rhoi sylw i bob agwedd ar waith GwE. Mae swyddogion dynodedig a enwebwyd yn gysylltiedig â phob cynllun ac mae pob swyddog yn rhoi mewnbwn clir i'w gynllun. Ar sail y fframwaith hwn, mae trefniadau hunanarfarnu manwl ar waith. Bydd YCG yn adolygu eu cynlluniau bob chwarter ac yn arfarnu cynnydd ac effaith. Mae'r adolygiadau hyn yn llywio arfarniad y cynllun busnes sydd, yn ei dro, yn bwydo arfarniad chwarterol y gwasanaeth fel bod llwybr clir o arfarnu tîm yn yr adolygiad corfforaethol. Yna, bydd blaenoriaethau newydd sy'n deillio o adolygiad y gwasanaeth yn cael eu hymgorffori'n gyflym yn y cynlluniau tîm.</p> <p>Mae staff ar bob lefel yn deall yn llawn eu cyfrifoldeb am welliant parhaus ac atebolrwydd. Mae rhannu cynlluniau ac arfarniadau yn gwneud timau yn gydlynol ac yn gyrru'r cydweithio cryf sydd wedi arwain at well darpariaeth a gwelliant mewn safonau ac arweinyddiaeth mewn ysgolion. Mae'r diwylliant hwn wedi deillio o arfer lwyddiannus o fewn GwE. Rhaid i YCG gyfiawnhau tanberfformiad ac adnabod</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
							meysydd risg posib, gan gynnwys gorwariant. Mae llinellau atebolrwydd wedi'u diffinio yn glir.
E5 B		Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.	Rhwydweithiau rhanbarthol wedi'u chwalu a'u disodli gan gynlluniau busnes lle bo'n briodol.	Arwyn Thomas	Cwblhawyd	Craidd	<p>Barn Estyn: Cynnydd da iawn</p> <p>Yn dilyn yr arolygiad craidd, comisiynodd y pwyllgor rheoli adolygiad manwl o'r gwasanaeth gwella ysgolion a oedd yn cynnwys rôl y rhwydweithiau rhanbarthol. Fe ardystiodd y bwrdd rheoli a'r cyd-bwyllgor ganfyddiadau'r adolygiad.</p> <p>O ganlyniad, cafwyd naill ai wared ar y rhwydweithiau rhanbarthol hanesyddol neu maent wedi'u cynnwys o dan reolaeth strategol GwE. Mae eu hatebolrwydd i'r cyd-bwyllgor yn glir.</p> <p>Mae gan bob maes berson arweiniol a enwebwyd a chynllun busnes manwl â meini prawf llwyddiant mesuradwy. Mae'r person arweiniol yn gyfrifol am fonitro cynnydd ac adrodd bob chwarter i'r uwch reolwyr. Cyfeirir materion sydd angen sylw i'r Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol ar gyfer ystyriaeth bellach.</p>
E6 6.1 6.2 B		Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod	<p>Polisi a fframwaith gwerth am arian ar waith.</p> <p>Cynllun ariannol wedi'i baratoi fel rhan o'r Cynllun Busnes 3 blynedd.</p>	Arwyn Thomas	Cwblhawyd	Craidd	<p>Barn Estyn: Cynnydd cryf</p> <p>Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ategu'r cynllun busnes 3-blynedd diwygiedig. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu wedi'u</p>

7. Argymhellion Estyn

Cyf	Blaenoriaethau	Gweithredu	Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2017-2018	Cyfrifoldeb	Dyddiad Targed	Ffynhonnell gyllid	Monitro Chwarter 3
R1 R2 R3 R8		ffrydiau gwaith wedi eu prasio'n llawn.	<p>Cynllun ariannol tymor canolig ar waith</p> <p>Ffrydiau gwaith cynllun busnes wedi'u prasio yn llawn.</p> <p>Archwiliadau mewnol ac allanol yn cefnogi rheolaeth ariannol gadarn.</p>				<p>halinio efo'r cynllun busnes. Trwy ddefnyddio data yn fwyfwy effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, mae'r cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau ynglŷn â chynllunio ariannol wedi'i gryfhau gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn adnabod yn glir yr adnoddau i'w defnyddio.</p> <p>Gwnaed gwaith manwl i alinio dyraniadau grant gyda'n blaenoriaethau. Mae YCG bellach yn herio ysgolion ar sut y defnyddir y cyllid grant. Mae set clir o feini prawf llwyddiant ar gyfer asesu hyn, ac mae hyn wedi lleihau'r anghysondebau rhwng ysgolion o ran adnabod effaith defnyddio'r grant ar ddeilliannau disgyblion.</p> <p>Datblygwyd fframwaith ffurfiol i asesu gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Bellach, mae'r holl randdeiliaid yn cytuno ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.</p> <p>Rydym bellach yn arfarnu ac yn adolygu ein gwasanaethau a'n mentrau yn rheolaidd yn ystod cyfnod eu gweithredu er mwyn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant a gwerth am arian.</p>

